OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2012 Rhif 1248 (Cy.153)

# ADDYSG, CYMRU

## Gorchymyn Personau Cydnabyddedig (Cosbau Ariannol) (Penderfynu Trosiant) (Cymru) 2012

| | | |
|---|---|---|
| *Gwnaed* | - - - - | *9 Mai 2012* |
| *Yn dod i rym* | - - | *9 Mai 2012* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 32AB(2) o Ddeddf Addysg 1997(**1**).

Yn unol ag adran 54(2A) o'r Ddeddf honno(**2**) gosodwyd drafft o'r Gorchymyn hwn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a chymeradwywyd ef drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Personau Cydnabyddedig (Cosbau Ariannol) (Penderfynu Trosiant) (Cymru) 2012.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 9 Mai 2012 ac y mae'n gymwys o ran Cymru.

**Dehongli**

**2.**—(1) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "blwyddyn fusnes" ("*business year*") yw cyfnod, o chwe mis neu ragor, y mae'r person cydnabyddedig yn cyhoeddi cyfrifon mewn perthynas ag ef, neu, os na chyhoeddwyd cyfrifon o'r fath am y cyfnod, yn paratoi cyfrifon mewn perthynas ag ef;

ystyr "blwyddyn fusnes flaenorol" ("*preceding business year*") yw'r flwyddyn fusnes yn union cyn y dyddiad hysbysu;

ystyr "dyddiad hysbysu" ("*date of notice*") yw'r dyddiad pan fo Gweinidogion Cymru yn rhoi hysbysiad i berson cydnabyddedig o dan adran 32AA(6) o'r Ddeddf o'u bwriad i osod cosb ariannol ar y person cydnabyddedig;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Addysg 1997;

(2) Yn y Gorchymyn hwn ystyr "trosiant cymwysadwy" ("*applicable turnover*") yw unrhyw symiau, a gyfrifir yn unol ag arferion cyfrifyddu arferol yn y Deyrnas Unedig, a'r rheini'n rhai—

(**1**) 1997 p.44; mewnosodwyd adran 32AB gan adran 24 o Ddeddf Addysg 2011 (p.21).
(**2**) 1997 p.44; mewnosodwyd adran 54(2A) gan adran 24 o Ddeddf Addysg 2011 (p.21).

(a) y mae'r person cydnabyddedig wedi eu deillio o ddarparu nwyddau a gwasanaethau sy'n dod o fewn ei weithgareddau cyffredin yn y Deyrnas Unedig; a

(b) a dderbynnir ar ffurf rhodd, grant neu gymhorthdal gan y person cydnabyddedig, wrth iddo gyflawni ei weithgareddau cyffredin yn y Deyrnas Unedig,

ar ôl didynnu disgowntiau masnach, treth ar werth a threthi eraill sy'n seiliedig ar y symiau sy'n deillio neu a dderbynnir felly;

**Penderfynu trosiant at ddibenion adran 32AB o'r Ddeddf**

**3.**—(1) Rhaid penderfynu trosiant person cydnabyddedig at ddibenion adran 32AB(1) o'r Ddeddf yn unol â'r erthygl hon.

(2) Os oes blwyddyn fusnes flaenorol—

(a) os yw'r flwyddyn fusnes flaenorol yn gyfnod o ddeuddeng mis, y trosiant yw'r trosiant cymwysadwy am y cyfan o'r flwyddyn fusnes flaenorol honno;

(b) os yw'r flwyddyn fusnes flaenorol yn fwy neu'n llai na chyfnod o ddeuddeng mis, y trosiant yw'r trosiant cymwysadwy yn y flwyddyn fusnes honno wedi ei rannu gyda nifer y misoedd yn y flwyddyn fusnes honno a'i luosi gyda deuddeg.

(3) Os nad oes blwyddyn fusnes flaenorol—

(a) y trosiant yw'r trosiant cymwysadwy am y cyfnod o ddeuddeng mis sy'n dod i ben ar ddiwrnod olaf y mis sy'n rhagflaenu'r mis sy'n cynnwys y dyddiad hysbysu; neu

(b) os oes gan y person cydnabyddedig drosiant cymwysadwy am gyfnod sy'n llai na deuddeng mis, y trosiant yw'r trosiant cymwysadwy am y cyfnod hwnnw wedi ei rannu gyda nifer y misoedd yn y cyfnod hwnnw a'i luosi gyda deuddeg.

*Leighton Andrews*
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru

9 Mai 2012

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn gwneud darpariaeth ar gyfer penderfynu trosiant person cydnabyddedig ("recognised person") at ddibenion adran 32AB o Ddeddf Addysg 1997 ("Deddf 1997").

Mae adran 32AA o Ddeddf 1997 yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru osod cosb ariannol ar berson cydnabyddedig (fel y diffinnir "*recognised person*" yn adran 32A(5) o Ddeddf 1997), os yw'n ymddangos i Weinidogion Cymru fod y person hwnnw wedi methu â chydymffurfio ag un o amodau ei gydnabyddiaeth o dan adran 32(3A) a (4) o Ddeddf 1997. Caiff swm y gosb ariannol fod yr hyn a benderfynir sy'n briodol gan Weinidogion Cymru, o ystyried holl amgylchiadau'r achos, ond ni chaiff y gosb ariannol fod yn fwy na 10% o drosiant y person cydnabyddedig, fel y'i penderfynir gan y Gorchymyn hwn.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, ni thybiwyd bod angen cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o gostau a buddion tebygol cydymffurfio â'r Gorchymyn hwn.